Adran Gwaith a Phensiynau

# Sut i wneud cais am **Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn**

**Hawdd i'w Ddarllen**



Ein cyfeirnod: **SSMG2WER** 08/23

# Cynnwys


1

Adran Gwaith a Phensiynau

**Cyflwyniad**

Tudalen 3

2



**Pryd i wneud cais**

Tudalen 5

3




**Sut i wneud cais**

Tudalen 7

4



**Os nad ydych yn cytuno â’n penderfyniad**

Tudalen 13

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith a Phensiynau

Mae **Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn** yn help y gallwch ei gael gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.



Mae’r cymorth yn arian a elwir yn **grant**.

Ni fyddai’n rhaid i chi dalu’r arian yn ôl.



Os gallwch gael y grant, bydd yn **daliad untro**.




Mae'r arian hwn i helpu gyda chostau cael plentyn.



Ni allwch gael Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn os ydych yn byw yn yr Alban.

Os ydych yn byw yn yr Alban mae grantiau eraill ar gael.

Ewch i www.mygov.scot/best-start-grant-best-start-foods




Bydd y wybodaeth hon yn dweud wrthych **pryd** a **sut** i wneud cais am Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn.

I gael rhagor o wybodaeth Hawdd i'w Ddarllen am Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn, ewch i www.gov.uk

Chwiliwch am **Easy Read Sure Start Maternity Grant**.

## 2 Pryd i wneud cais




Bydd pryd y gallwch wneud cais am Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn yn dibynnu ar eich amgylchiadau.



Os ydych yn feichiog, gallwch wneud cais am y grant **11 wythnos cyn y disgwylir i'ch babi gael ei eni**.



Bydd rhaid i chi wneud eich cais **cyn bod** eich babi yn 6 mis oed.



Bydd rhaid i chi wneud cais am y grant o fewn 6 mis o fabwysiadu plentyn neu gael gorchymyn cymhwyso.



Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi wneud cais o fewn y 6 mis cyntaf i'r plentyn fod yn eich gofal.




Y Mae angen i chi wneud cais am eich grant cyn i'ch plentyn droi'n 1 mlwydd oed.

# 3 Sut i wneud cais




I hawlio'r grant, mae angen i chi lenwi ffurflen o'r enw **SF100W**.




Gallwch gael y ffurflen drwy fynd ar-lein.

Ewch i:
[www.gov.uk/government/publications/sure-start-maternity-grant-claim-form.cy](http://www.gov.uk/government/publications/sure-start-maternity-grant-claim-form.cy)



Gallwch naill ai lenwi'r ffurflen ar eich cyfrifiadur, llechen neu ffôn symudol ac yna ei hargraffu.



Neu gallwch argraffu ffurflen wag a'i llenwi â beiro.



Mae'n **rhaid** i chi gael **gweithiwr iechyd proffesiynol** i gadarnhau eich beichiogrwydd neu enedigaeth eich babi gyda naill ai:

- Ffurflen **MATB1W**
- Llythyr yn cynnwys yr un wybodaeth.




Gallai **gweithiwr iechyd proffesiynol** fod yn:

- feddyg
- bydwraig, neu
- ymwelydd iechyd.




Gallwch anfon eich ffurflen heb gadarnhau’r wybodaeth hon os oes angen.



Os gwnewch hyn, byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â chadarnhau’r wybodaeth hon gyda ni yn nes ymlaen.




Cofiwch lofnodi a dyddio eich ffurflen gais drwy ddefnyddio beiro.



Anfonwch eich ffurflen wedi'i chwblhau i:
**Freepost DWP SSMG**

Nid oes angen cod post na stamp arnoch.




Os ydych yn fyddar ac yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain efallai y gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth cyfnewid fideo.




Dywedwch wrthym os oes angen ffurflen arnoch mewn fformat fel braille, print bras neu CD sain.




I wneud hyn cysylltwch â llinell gymorth Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn ar **0800 169 0140**.



Os na allwch glywed na siarad ar y ffôn gallwch ddefnyddio Relay UK:

**18001** yna **0800 169 0140**

I gael rhagor o wybodaeth am sut i hawlio, ewch i: [www.gov.uk/grant-mamolaeth-cychwyn-cadarn/sut-i-wneud-cais](http://www.gov.uk/grant-mamolaeth-cychwyn-cadarn/sut-i-wneud-cais)




Ar ôl i chi wneud cais, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn anfon llythyr atoch.




Bydd y llythyr yn dweud wrthych os gallwch neu na allwch gael y grant.

Os ydych yn cael Credyd Cynhwysol, byddwch yn cael penderfyniad ar eich grant ar ôl eich taliad budd-dal nesaf.

# 4 Os nad ydych yn cytuno â'n penderfyniad



Os nad ydych yn cytuno â'n penderfyniad, gallwch ofyn i ni edrych arno eto.



Pan fyddwn yn edrych ar y penderfyniad eto, rydym yn galw hwn yn **Ailystyriaeth Orfodol**.

?

Mae **'Ailystyriaeth Orfodol'** yn golygu byddwn yn edrych ar:

- Y wybodaeth a roesoch i ni yn wreiddiol
- Unrhyw wybodaeth newydd rydych yn ei rhoi
- A oes unrhyw newidiadau wedi bod yn eich amgylchiadau.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i weld a allwn newid ein penderfyniad.

**1**

**mis**

Fel arfer mae angen i chi ofyn i ni edrych ar eich cais eto o fewn **1 mis** i'r dyddiad ar eich llythyr penderfyniad.



Os hoffech siarad â ni am ein penderfyniad, ffoniwch Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn ar **0800 169 0140**.



Gallwch ysgrifennu llythyr yn dweud wrthym pam nad ydych yn cytuno â'n penderfyniad.

Anfonwch y llythyr i'r cyfeiriad ar eich llythyr penderfyniad.




Os nad yw eich llythyr penderfyniad gennych, cysylltwch â llinell gymorth Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn ar **0800 169 0140.**




Gallwch hefyd lenwi Ffurflen gais am **Ailystyriaeth Orfodol**.

I gael y ffurflen a dysgu mwy am **Ailystyriaeth Orfodol**, ewch i www.gov.uk

Chwiliwch am **Challenge a decision made by the Department for Work and Pensions (DWP)**.

I gael rhagor o wybodaeth am Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn, ewch i www.gov.uk/grant-mamolaeth-cychwyn-cadarn